# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 15.12.10

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Evie M. Jones (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr Dewi Llewelyn a W. Tudor Owen

**Hefyd yn bresennol:** Geraint B. Edwards (Cyfreithiwr), Amlyn ab Iorwerth (Rheolwr Trwyddedu) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Pwyllgor).

**<u>Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod</u>:**

**Ymgeiswyr:**
**Ar ran Halfway Inn, Talysarn, Caernarfon:** Mr Mark Brown (Cyfreithiwr), Mrs Deborah Leech (Tenant), Mr Stephen Leech a Mr Daryl Ward

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr J.R. Jones a Dilwyn Lloyd (aelod lleol)

**1. CAIS I WYRO TRWYDDED EIDDO HALFWAY INN, TALYSARN, CAERNARFON**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn rhoi manylion ar gais ar ran Halfway Inn, Talysarn, Caernarfon i wyro trwydded yr eiddo fel a ganlyn –

i) Oriau agor i'r cyhoedd rhwng 11.00 a 00.30 dydd Llun i ddydd Iau, rhwng 11.00 a 01.30 dydd Gwener a dydd Sadwrn a rhwng 12.00 a 00.30 dydd Sul.
ii) Darparu alcohol tu mewn a thu allan i'r adeilad, rhwng 11.00 a 00.00 dydd Llun i ddydd Iau, rhwng 11.00 a 01.00 dydd Gwener a dydd Sadwrn a rhwng 12.00 a 00.00 dydd Sul.
iii) Caniatau cerddoriaeth wedi ei recordio a digwyddiadau chwaraeon dan do rhwng 11.00 a 00.00 dydd Llun i ddydd Iau, rhwng 11.00 a 01.00 dydd Gwener a dydd Sadwrn a rhwng 12.00 a 00.00 ar ddydd Sul.

Adroddwyd, yn dilyn y cyfnod ymgynghori priodol, nid oedd gan yr Heddlu wrthwynebiad i'r cais, ac nad oedd gan y Gwasanaeth Tân ac Achub na'r Adran Safonau Masnach unrhyw sylwadau. 'Roedd Cyngor Cymuned Llanllyfni yn gwrthwynebu'r cais ar sail niwsans cyhoeddus

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

i. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd i ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu

ii. Gwahoddwyd yr Ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais;

iii. Rhoddwyd cyfle i'r ymgynghorai gefnogi eu sylwadau**.**

iv. Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau

v. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded

vi. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai.

vii. Cafodd yr Ymgeisydd neu ei gynrychiolydd gyfle i grynhoi eu hachos

Nid oedd cynrychiolydd o Gyngor Cymuned Llanllyfni yn bresennol yn y cyfarfod i gefnogi'r sylwadau a gyflwynwyd trwy lythyr a datganodd yr aelodau anfodlonrwydd ynglyn â hynny. Cytunwyd i anfon llythyr at y Cyngor Cymuned yn datgan hynny. Yn sgîl absenoldeb cynrychiolydd o'r Cyngor Cymuned, ystyriodd yr aelodau ohiriad, ond penderfynwyd parhau â'r cyfarfod.

Wrth gefnogi'r cais hysbysodd cyfreithiwr ar ran y tenant –

- Bod y cais yn bennaf i gynyddu incwm y dafarn a bod posibilrwydd na fyddai'n gallu parhau os na chynyddir yr oriau.
- Y bu i'r tenant presennol gymryd tenantiaeth yr eiddo yn Hydref 2007 ac ymgymerwyd â gwelliannau iddo ers hynny. Cyflogir chwech o bersonau'n gysylltiedig â'r busnes.
- Bod y mwyafrif o dafarndai y dyddiau hyn yn agored tan 00.00 yn ystod yr wythnos a than 01.00 ar benwythnos.
- Bod y cais yn un synhwyrol o'i gymharu â rhai ceisiadau a dderbynnir gan denantiaid yn gofyn am gynyddu'r oriau tan 03.00 neu 04.00.
- Bod dyfodol y dafarn yn bwysig nid yn unig i'r tenant ond hefyd i'r gymuned. Cyfeiriodd at y timau dartiau a pŵl sy'n cyfarfod yn rheolaidd yno.
- Nid oes achosion o drosedd ac anhrefn yn gysylltiedig â'r dafarn a thynnodd sylw at y ffaith nad oedd gan yr heddlu wrthwynebiad i'r cais.
- Nid oes trafferthion gyda sŵn o'r eiddo. Nododd bod caeau i'r ffrynt, tŷ gwag ar un ochr a rhes o dai yr ochr arall. Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad i'r cais gan drigolion y tai hynny.
- Y gosodir arwyddion yn tynnu sylw'r cwsmeriaid at yr angen i adael yr eiddo'n drefnus, ac i barchu'r cymdogion.
- Y chwaraeir cerddoriaeth gefndirol yn unig yn yr eiddo.

Gadawodd y partion perthnasol y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, a gan roddi sylw penodol i egwyddorion y ddeddf sef:

- Rhwystro Trosedd ac Anrhefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

**PENDERFYNWYD**
**a) Caniatau gwyro trwydded Halfway Inn, Talysarn, Caernarfon fel a ganlyn –**
**i) Caniatau digwyddiadau chwaraeon dan do dan baragraff C rhwng 11.00 a 00.00 dydd Llun i ddydd Iau, rhwng 11.00 a 01.00 dydd Gwener a dydd Sadwrn a rhwng 12.00 a 00.00 ar ddydd Sul.**
**ii) Caniatau cerddoriaeth wedi ei recordio dan baragraff F rhwng 11.00 a 00.00 dydd Llun i ddydd Iau, rhwng 11.00 a 01.00 dydd Gwener a dydd Sadwrn a rhwng 12.00 a 00.00 ar ddydd Sul.**
**iii) Caniatau gwerthu alcohol dan baragraff M rhwng 11.00 a 00.00 dydd Llun i ddydd Iau, rhwng 11.00 a 01.00 dydd Gwener a dydd Sadwrn a rhwng 12.00 a 00.00 ar ddydd Sul.**
**iv) Caniatau oriau agor dan baragraff 0 rhwng 11.00 a 00.30 dydd Llun i ddydd Iau, rhwng 11.00 a 01.30 dydd Gwener a dydd Sadwrn a rhwng 12.00 a 00.30 ar ddydd Sul.**
**b) Anfon llythyr at Gyngor Cymuned Llanllyfni yn datgan anfodlonrwydd na fu i gynrychiolydd o'r Cyngor fynychu'r is-bwyllgor i gyflwyno sylwadau.**

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'n anelu at anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeiswyr o benderfyniad yr Is-bwyllgor, ac yn eu hysbysu o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.45am a daeth i ben am 11.30am